

# Castell Caerdydd

## Sesiwn Normanaidd/Canoloesol Safonol yn y Ganolfan Addysg

### Lleoliad

Cynhelir eich gweithdy yn Ystafell y Stiward (Ystafell 2) yn y Ganolfan Addysg.

### Disgrifiad

Caiff y sesiwnau hyn eu haddasu yn ôl oed ac anghenion y plant yn y dosbarth. Yn gyffredinol, bydd sesiwn yn cynnwys:

- Cyfnod Sylfaenol/Cyfnod Allweddol 1 – cyflwyniad i'r cestyll a'r bobl oedd yn byw ynddynt. Yn ystod y sesiwn, bydd disgyblion yn ymchwilio i pam yr adeiladwyd cestyll, pwy oedd yn byw ynddynt a'r math o arfwisgoedd ac arfau a ddefnyddiwyd. Bydd y disgyblion yn cael cyfle ar ddiwedd y sesiwn i drin a gwisgo eitemau a ddewiswyd o'r casgliad trin a thrafod, gan gynnwys rhai helmedau plastig a chwarae gyda detholiad o bypedau.
- CA2 - Sgwrs fanylach am fywydau pobl yn Oes y Tywysogion, gan ganolbwyntio ar arfwisg ac arfau yn y casgliad a sut y byddent yn cael eu defnyddio. Bydd y disgyblion i gyd yn cael cyfle i drin rhai o'r eitemau a rhoi cynnig arnynt.
- CA3 - Trosolwg o fywyd yn yr ardal yn y cyfnod canoloesol, o ddyfodiad y Normaniaid hyd at berchenogaeth ganoloesol Castell Caerdydd. Bydd newidiadau mewn arfwisg ac arfau yn ystod y cyfnod yn cael eu dangos drwy'r casgliad yn y Ganolfan Addysg a bydd disgyblion yn cael cyfle i drin rhai o'r eitemau a rhoi cynnig arnynt.

Cynhelir y sesiwn hon gan y Swyddog Addysg sydd wedi pasio prawf y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DRB).

### Taith Dywys o'r Castell

Mae taith dywys o'r Tŷ yn rhan o bris yr ymweliad. Bydd y daith yn mynd â'r disgyblion i rai o'r ystafelloedd mwyaf godidog sy'n dyddio o'r cyfnod Fictoriaidd. Mae'r cynlluniau'n adlewyrchu gweledigaeth y pensaer o sut y byddai tu mewn i Gastell canoloesol wedi edrych.

### Hyd

Bydd y sesiwn yn para 60-75 munud. Ar gyfer disgyblion Cyfnod Sylfaenol/Cyfnod Allweddol 1 a grwpiau AAA, gellir byrhau'r sesiwnau i ddiwallu anghenion y grŵp. Bydd taith dywys o'r Castell yn para tua 50 munud. Gall athrawon sydd â phlant iau ddewis taith fyrrach (tua 30 mun) sy'n hepgor y grisiau troellog i ben un o'r tyrau.

### Canlyniadau Dysgu Allweddol

Bydd y canlyniadau a ddysgwyd a'r hyn a gwmpesir yn ystod y sesiwnau yn dibynnu ar oed, anghenion ac amrediad y disgyblion. Fodd bynnag, erbyn diwedd y sesiwn, bydd eich disgyblion wedi:

- ◆ Dysgu'r rhesymau tebygol dros leoliad y castell mwnt a beili Normanaidd yng Nghaerdydd
- ◆ Dysgu am y gwahanol fathau o filwr mewn byddin ganoloesol a'r offer a ddefnyddiwyd
- ◆ Dysgu sut y newidiodd arfwisgoedd ac arfau drwy'r cyfnod canoloesol
- ◆ Dysgu sut i drin arteffactau'n ddiogel gyda gofal a pharch
- ◆ Dysgu sut i ddefnyddio sgiliau meddwl a datrys problemau i weithio allan manteision ac anfanteision gwahanol fathau o arfwisgoedd ac arfau
- ◆ Dysgu i weithio mewn tîm a chymryd tro wrth i'r grŵp drin a rhoi cynnig ar wahanol eitemau o'r casgliad

### Prif Gysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol

- ◆ **Y Cyfnod Sylfaenol (Cymru)**
  - **Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**
- ◆ **Cyfnod Allweddol 1 (Lloegr)**
  - **Digwyddiadau y tu hwnt i gof byw**
- ◆ **Cyfnod Allweddol 2 (Cymru)**
  - **Bywyd pob dydd pobl yn ystod Oes y Tywysogion (Hanes)**
- ◆ **Hanes – Cyfnod Allweddol 2 (Lloegr)**
  - **Astudiaeth o agwedd neu thema yn hanes Prydain sy'n ymestyn gwybodaeth gronolegol y disgyblion y tu hwnt i 1066 (Hanes)**
- ◆ **Cyfnod Allweddol 3 (Cymru)**
  - **Sut y gwnaeth dyfodiad y Normanaidd effeithio ar Gymru a Phrydain rhwng 1000 a 1500 (Hanes)**

◆ Hanes Cyfnod Allweddol 3 (Lloegr)

- Datblygiad yr Eglwys, y wladwriaeth a chymdeithas ym Mhrydain Ganoloesol 1066-1509 (Hanes)

**Beth Arall sy'n Rhan o'ch Ymweliad**

- Defnyddio'r Daith Glywedol a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer plant
- Sioe ffilm a mynediad i ardaloedd y Tiroedd gan gynnwys y Gorthwr, y Bylchfuriau a'r Llochesi Rhyfel.
- Ymweliad â Firing Line - Amgueddfa'r Milwr Cymreig (Amgueddfa Filwrol yn y Ganolfan Ddehongli). Noder: Mae Firing Line yn cael ei rheoli yn annibynnol ac nid yw unrhyw weithgareddau a gynigir yno'n rhan o Wasanaeth Addysg Castell Caerdydd. Efallai na fydd yr ymweliadau yn bosibl ar ddiwrnodau penodol, neu efallai y codir tâl ychwanegol

Fel arfer, mae gennym adar ysglyfaethus ar y safle yn ystod yr wythnos ond ni allwn warantu hyn.